

Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Meilyr Rowlands
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	ChiefInspector@estyn.gov.uk
Rhif Ffôn / Tel No:	02920 446 446
Dyddiad / Date:	18 Ebrill 2019
Pwnc / Subject:	Diwrnodau HMS Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol Ychwanegol 2019 i 2022

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

CYFLWYNIAD

Mae Estyn yn cefnogi rhoi amser ychwanegol i Ddysgu Proffesiynol ar gyfer y cwricwlwm newydd. O ystyried hyd a lled y diwygio, mae Estyn yn cytuno mai neilltuo amser ychwanegol i ysgolion ganolbwyntio ar ddysgu proffesiynol athrawon a staff cymorth er mwyn gweithredu'r cwricwlwm newydd yw'r allwedd i'w lwyddiant. Byddai amser ychwanegol yn galluogi ysgolion i gydweithredu ymhellach gyda Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol a phartneriaid eraill i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Byddai rhoi amser ychwanegol ar gyfer dysgu proffesiynol yn annog ysgolion i gydweithio a, hefyd, yn rhoi amser i staff mewn ysgolion ddod at ei gilydd.

Mewn cyfnod o'r fath arloesi mewn addysg, lle y mae blaenoriaethau allweddol diwygio addysg yng Nghymru yn cynnwys:

- Dyluniad a datblygu'r cwricwlwm
- Asesu
- Arweinyddiaeth
- Trawsnewid ADY
- Y Gymraeg
- Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol
- Atebolrwydd

mae amser i gynllunio, myfyrio a gweithredu yn angenrheidiol er mwyn i'r genhadaeth genedlaethol ar gyfer addysg yng Nghymru lwyddo. Mae Estyn yn croesawu ymrwymiad diweddar Llywodraeth Cymru¹ i ddatblygu *Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol*². Mae'r cyhoeddiad hwn yn cydnabod y rôl hanfodol y bydd datblygiad proffesiynol ein gweithlu addysg yn ei chwarae wrth sicrhau bod y cwricwlwm yn cael ei drawsnewid.

Mae'r Dull Cenedlaethol newydd ar gyfer Dysgu Proffesiynol yn amlinellu fframwaith uchelgeisiol, lefel uchel ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon ac mae'n canolbwyntio ar ddatblygu:

- Dysgu Proffesiynol Unigol
- Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu
- Dysgu Proffesiynol Cyfunol
- Rhwydweithiau Cydweithredol
- Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth
- Addysgeg ar gyfer dysgu proffesiynol
- Y Cynnig Dysgu Proffesiynol
- Achrediad a Chydnabyddiaeth.

Mae angen sicrhau bod y model Dysgu Proffesiynol wedi'i glymu'n dynn wrth ddatblygiad y Cwricwlwm i Gymru.

¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018) *Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Gwerthfawrogi ein Hathrawon – Buddsoddi yn eu Rhagoriaeth*. [html] Ar gael ar-lein ar: <http://record.assembly.wales/Plenary/5363#A46717>
Cyrchwyd ar: 20/11/2018

² Llywodraeth Cymru (2018) *Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol* [pdf] Ar gael ar-lein ar: https://beta.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-11/national-approach-to-professional-learning-napl-model-a4_1.pdf Cyrchwyd ar: 19/11/2018

CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD

Cwestiwn 1: Ydych chi'n credu bod angen diwrnod HMS ychwanegol i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd?

Ydym. Mae ein tystiolaeth arolygu a thystiolaeth arall yn awgrymu bod ychydig ysgolion cynradd ac ychydig bach iawn o ysgolion uwchradd wedi dechrau gwreiddio cysyniadau Dyfodol Llwyddiannus ar draws eu cwricwlwm. Ar y cyfan, mae lleiafrif bach o ysgolion uwchradd a rhyw hanner o ysgolion cynradd yn dechrau rhoi ychydig ffyrdd newydd o weithio ar brawf, yn unol â'r argymhellion yn Dyfodol Llwyddiannus. Er mwyn cynorthwyo mwy o ysgolion i baratoi ar gyfer y trefniadau newydd o ran y cwricwlwm, addysgeg ac asesu, byddai'n ddefnyddiol pe bai'r dysgu proffesiynol a gynigir bellach yn cael ei deilwra'n fwy tuag at fodloni anghenion darparwyr unigol a mynd i'r afael â'u manau cychwyn gwahanol. Byddai hyn yn cynorthwyo ysgolion, pa mor barod bynnag y maen nhw, i ddechrau paratoi ar gyfer creu cwricwlwm newydd. Mae dwyn ymarferwyr ynghyd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o egwyddorion allweddol y Meysydd Dysgu newydd yn allweddol i sicrhau eglurder a chysondeb ledled Cymru wrth gynllunio cwricwlwm blaengar.

Cwestiwn 2: Ydych chi'n credu y bydd un diwrnod HMS ychwanegol bob blwyddyn am dair blynedd yn adnodd ychwanegol digonol i helpu i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd?

Nid yw un diwrnod HMS ychwanegol yn unig yn ddigon o amser i fynd i'r afael â maint y newid sy'n wynebu ysgolion yng Nghymru. Er bod yr heriau i ysgolion cynradd ac uwchradd wrth gyflwyno'r cwricwlwm newydd yn wahanol, her i'r ddau sector fydd sicrhau bod profiadau dysgu dysgwyr yn pontio'n hwylus ar draws cyfnodau er mwyn adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion. Bydd gweithio mewn clystyrau ar lefel leol neu ranbarthol yn bwysig i alluogi cynllunio a rhoi cyfleoedd i wella medrau athrawon o ran arferion pedagogiaidd. Mae lle i adolygu'r trefniadau arfaethedig ar ôl y flwyddyn gyntaf i werthuso p'un a yw'r diwrnod HMS ychwanegol yn ddigonol.

Oherwydd y bwriedir i'r diwrnod HMS ychwanegol hwn ganolbwyntio ar ddysgu proffesiynol i helpu i weithredu'r cwricwlwm newydd, bydd yn hanfodol bod canllawiau clir ar gael ar y deilliannau bwriadedig a ddisgwylir. Bydd arweiniad clir i helpu ysgolion fonitro a gwerthuso effaith y diwrnod HMS ychwanegol ar berfformiad disgyblion yn hanfodol. Un o'r heriau i ysgolion fydd sut mae'r diwrnod HMS hwn yn cysylltu'n agos â dysgu proffesiynol arall o fewn yr ysgol. Nododd ein hadroddiad thematig ar *HMS Statudol mewn Ysgolion*³ fod nodweddion trefnu a chyflwyno diwrnodau HMS yn effeithiol yn cynnwys:

- defnyddio arbenigedd staff i ddarparu hyfforddiant mewnol, sy'n helpu adeiladu a chynnal y gallu i wella;
- sicrhau bod hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu gan sefydliadau ac arbenigwyr allanol yn cael ei deilwra'n ofalus at anghenion penodol yr ysgol;
- defnyddio dulliau ar gyfer sesiynau hyfforddi sy'n cynnwys staff yn weithredol, fel seminarau, gweithdai a gwersi arddangos;
- cydweithio ag ysgolion eraill fel bod staff yn cael cyfleoedd i elwa ar rannu profiadau, arbenigedd ac arfer dda; a
- chwilio am ffyrdd i gynnwys staff cymorth dysgu mewn hyfforddiant HMS

³ Estyn (2013) *HMS Statudol mewn Ysgolion*. [pdf] Ar gael ar-lein ar: <https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/HMS%20Statudol%20mewn%20ysgolion%20-%20Mehefin%202013.pdf> Cyrchwyd ar: 28/03/2019

Ni fyddai sesiynau 'gyda'r nos' fesul tipyn yn cefnogi ymagwedd integredig at ddiwygio'r cwricwlwm a dylid pennu'r angen am sesiwn diwrnod cyfan yn glir yn y meini prawf gosod. Mae adeiladu bob yn dipyn ar lwyddiannau'r flwyddyn gyntaf o ddysgu proffesiynol ychwanegol yn bwysig wrth gynllunio ymagwedd drefnus at ddiwygio.

Cwestiwn 3: Am sawl blwyddyn y dylai'r diwrnodau HMS ychwanegol fod ar gael?

Am o leiaf dair blynedd, a dylid eu hadolygu wedi hynny. O ganlyniad i gyhoeddi'r cwricwlwm drafft yn 2019, y cwricwlwm terfynol yn 2020, a'i gyflwyno'n statudol o 2022 ymlaen, mae ysgolion mewn cyfnod o bontio o'r trefniadau presennol i gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Mae'r weledigaeth ar gyfer cwricwlwm gweddnewidiol, a amlinellir yn *Dyfodol Llwyddiannus*, yn bellgyrhaeddol. Mae mwyafrif yr ysgolion arloesi wedi cyfrannu y tu hwnt i ddisgwyliadau dros gyfnodau helaeth: cynnwys mwyafrif neu holl aelodau staff yr ysgol mewn ffyrdd gwahanol, treialu methodolegau gwahanol gyda disgyblion, rhannu'u harfer a'u trafodaethau ar Hwb, a dod â'u canfyddiadau yn ôl i'w trafod er mwyn rhannu syniadau. Ar gyfer yr ysgolion sy'n weddill, mae'r her i gynllunio, datblygu ar y cyd, ac archwilio methodolegau gwahanol gydag ysgolion clwstwr yn parhau'n her arall ac mae'n codi achos dros ymestyn yr amser sy'n cael ei neilltuo ar gyfer dysgu proffesiynol. Mae effeithiolrwydd ysgolion arloesi wrth gynorthwyo ysgolion partner yn amrywio'n sylweddol. Bydd gwerthuso effaith y diwrnod HMS ychwanegol ac effaith yr holl ddatblygiadau cwricwlaidd newydd ar gynnydd disgyblion ar ôl y flwyddyn gyntaf o weithredu yn hysbysu pob parti am y negeseuon allweddol a ddysgwyd a'r meysydd y mae angen eu datblygu ymhellach.

Cwestiwn 4: Beth yw'ch barn am y defnydd presennol o ddiwrnodau HMS?

Rhododd ein hadroddiad thematig *HMS statudol mewn ysgolion*³ negeseuon clir am y ffordd y caiff diwrnodau HMS eu defnyddio'n effeithiol mewn ysgolion. Mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn berthnasol o hyd. Yn fyr, mae HMS yn effeithio ar welliant ysgolion a safonau disgyblion yn fwyaf effeithiol:

- pan fydd yr amser hyfforddiant pwrpasol ar gyfer staff yn cael ei ddefnyddio'n llawn ac yn cynnwys ffocws clir ar flaenoriaethau'r ysgol a blaenoriaethau cenedlaethol;
- pan fydd yn ffurfio rhan annatod o'r rhaglen DPP ehangach ar gyfer staff;
- pan fydd wedi'i ymgorffori â chynlluniau gwella ysgolion;
- pan fydd yr hyfforddiant yn cael ei ddefnyddio i wneud gwelliannau sylweddol mewn arfer;
- pan fydd staff yn diweddarau'u gwybodaeth a'u medrau proffesiynol;
- pan fydd staff yn ehangu ac yn cyfoethogi eu medrau addysgu ac arweinyddiaeth;
- pan geir cefnogaeth a her i'r ffordd y mae'r staff yn gweithio;
- pan gaiff lledaenu arfer dda ei rannu o fewn ysgolion a rhwng ysgolion;
- pan geir cyfleoedd i ysgolion gydweithio fel cymunedau dysgu proffesiynol a rhwydweithio gydag ysgolion eraill; a
- phan fydd staff yn cael mwy o foddhad mewn swydd o ganlyniad i'r hyfforddiant.

Fodd bynnag, darganfu ein hadroddiad thematig ar ddiwrnodau HMS statudol fel a ganlyn:

"Nid yw lleiafrif bach o ysgolion yn defnyddio amser HMS yn gynhyrchiol bob amser. Yn aml, yn yr ysgolion hyn, nid yw cynnwys y rhaglen HMS yn cael ei phennu digon gan flaenoriaethau cynllun gwella'r ysgol, anghenion unigol y staff na blaenoriaethau cenedlaethol. Mae tystiolaeth arolygu yn awgrymu bod amser HMS, mewn ychydig o ysgolion, yn cael ei dreulio ar weithgareddau amhriodol, fel trefnu ystafelloedd dosbarth ac arddangosfeydd. Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae staff yn defnyddio amser HMS ar ddechrau bob tymor i gynllunio, ac mae amser eisoes wedi'i neilltuo yn ystod yr wythnos ysgol ar gyfer hyn. At ei gilydd yn yr ysgolion hyn, nid yw

diwrnodau HMS yn cyfrannu digon at ddatblygiad proffesiynol parhaus na gwella'r ysgolion" (t.7)³.

"Dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer gynyddol o ysgolion wedi gweithio gyda'i gilydd ar ddiwrnodau HMS ar y cyd, gan arwain yn aml at ddatblygu cymunedau dysgu proffesiynol. Pan fo ysgolion yn cydweithio ag ysgolion eraill ar gyfer HMS, mae'r staff yn elwa ar rannu gwybodaeth ac arfer dda. Gall cydweithio rhwng ysgolion greu buddion sylweddol i'r staff a disgyblion" (t.24)³.

Mae gweithio'n lleol ac yn rhanbarthol, ac o fewn clystyrau, yn rhoi mwy o annibyniaeth i ysgolion sicrhau bod ymagwedd gliriach a strategol at gynllunio ac nad yw ysgolion yn gweithio mewn seilos. Felly, yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae diwrnodau HMS statudol yn rhan annatod o strategaeth fwy sy'n cynnwys llinynnau eraill fel grwpiau tasg â ffocws, cymunedau dysgu proffesiynol, a llunio canllawiau i'w dosbarthu'n ehangach ymhlith athrawon ac ysgolion clwstwr.

Cwestiwn 5: Ydych chi'n credu y dylem baratoi cynnwys gorfodol ar gyfer y diwrnodau ychwanegol hyn?

Byddai meini prawf gor-gaeth yn groes i egwyddor arloesi, sy'n nodwedd bwysig o'r diwygiadau newydd. Oherwydd bod camau athrawon ar y daith ddiwygio yn amrywio, dylid gofalu peidio â bod yn or-ragnodol.

Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynt, byddai'n ddefnyddiol cael canllawiau clir am ddeilliannau bwriadedig y diwrnodau ychwanegol hyn am y tair blynedd nesaf. Byddai'n bwysig amlygu pob athro i becyn dysgu proffesiynol cenedlaethol, wedi'i dargedu'n benodol at ddarparu'r dysgu sy'n angenrheidiol iddynt ymgodymu â'r newid sylweddol y mae'r cwricwlwm newydd yng Nghymru yn ei gynrychioli. Mae themâu sylfaenol y mae angen eu harchwilio ar y dyddiad cau ychwanegol hwn i gefnogi pontio effeithiol. Byddai'r rhain yn cynnwys:

- Ymgyswrtio â chynnwys pob maes dysgu
- Ymgyswrtio â'r camau dilyniant a'r goblygiadau i bontio wrth gynllunio mewn cyfarfodydd clwstwr
- Archwilio'r ddarpariaeth bresennol
- Dadansoddi cysylltiadau rhwng pynciau mewn, ac ar draws, meysydd dysgu
- Archwilio medrau staff i gyflwyno'r cwricwlwm newydd
- Ystyried cyd-destunau dysgu newydd
- Dysgu proffesiynol a newidiadau i addysgeg
- Ffocws ar ddysgu rhyngddisgyblaethol
- Trefn y cwricwlwm ac amser y cwricwlwm ar gyfer pob maes dysgu
- Cyfuniad o ddulliau mewn addysgeg, e.e. ffurfiol, ddim yn ffurfiol, anffurfiol
- Profiadau, gwybodaeth a medrau ym mhob maes dysgu a phrofiad wrth gynllunio
- Ymagwedd holistig, integredig neu rhyngddisgyblaethol ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad?
- Sut i greu ymreolaeth, hyblygrwydd a chreadigrwydd i sicrhau dysgu dilys?
- Cysylltu profiadau, gwybodaeth a medrau o fewn ac ar draws meysydd dysgu a phrofiad i ysgogi cyfleoedd cyfoethog
- Sicrhau pontio mwy di-dor rhwng pob cam dilyniant i ddysgwyr
- Sut i gael cydbwysedd gwell rhwng gwybodaeth, caffael a datblygiad medrau trwy brofiadau dysgu go iawn
- Integreiddio dysgu yn yr awyr agored i ychwanegu at brofiadau dysgu disgyblion

Bydd amser i fyfyrrio, cynllunio a gwerthuso effeithiolrwydd y cynllunio yn galluogi athrawon, mewn cydweithrediad â'u cymheiriaid, i greu profiadau dysgu gwerthfawr a dilys i ddisgyblion. Yn allweddol i lwyddiant y cwricwlwm newydd hwn yw cynnwys amser i staff werthuso a mireinio, i sicrhau bod trylwyredd a her briodol yn yr hyn a ddarperir.

Cwestiwn 6: Ydych chi'n credu y byddai'n fanteisiol pennu dyddiad penodedig ar gyfer y diwrnod HMS Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol, neu a fyddai'n well pennu cyfnod (h.y. yn ystod tymor neu hanner tymor penodol)?

Byddai dyddiad gosod ar gyfer yr HMS ychwanegol yn gweithio'n ymarferol ar lefel ranbarthol yn hytrach na chenedlaethol, oherwydd byddai'n creu rhwydwaith gwerthfawr i ysgolion gydweithio. Byddai'r model hwn yn galluogi ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd clwstwr i gael sgysiau dysgu proffesiynol gwerthfawr am gynllunio ar gyfer pontio'r cwricwlwm rhwng y camau dilyniant gwahanol. Hefyd, byddai hyn yn fforwm buddiol ar gyfer trafod y profiadau, y wybodaeth a'r medrau a enillir ar draws cyfnodau i sicrhau bod y profiadau dysgu yn addas ar draws sectorau. Byddai'r cyfle i weithio'n rhanbarthol ar ddiwrnod HMS gosod yn annog ysgolion cyfrwng Cymraeg i rannu adnoddau ac arferion, ac ynparu ysgolion arloesi â'r ysgolion hynny nad oeddent yn ysgolion arloesi i wella'u medrau a datblygu deialog broffesiynol.

Sylwadau eraill

Mae cynorthwyo staff cymorth mewn ysgolion i weithio ochr yn ochr ag athrawon dosbarth ar gyfleoedd dysgu proffesiynol yn eithriadol o bwysig hefyd. Maent yn chwarae rhan allweddol yn datblygu adnoddau a chynorthwyo amrywiaeth o ddisgyblion i gaffael y wybodaeth a'r medrau a amlygir yn y cwricwlwm newydd. Nododd ein hadroddiad thematig ar HMS y canlynol:

“Mae amodau tâl a gwasanaeth staff cymorth dysgu yn amrywio rhwng ysgolion yn aml. O ganlyniad, nid yw pob un o'r staff hyn yn mynychu sesiynau HMS gyda'r athrawon. Dim ond mewn lleiafrif o ysgolion y mae staff cymorth dysgu'n cael eu cynnwys. Mewn ychydig o ysgolion, mae'r staff cymorth yn gysylltiedig â chynllunio ac arwain HMS, ac mae hyn yn datblygu eu medrau proffesiynol ymhellach ac yn gwneud defnydd da ohonynt” (t.3)³.

Mae hyn yn agwedd bwysig y dylid ei hystyried wrth gynllunio ar gyfer cyfleoedd dysgu proffesiynol ychwanegol i'r holl staff.

[DIWEDD]